

## Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Statws Partneriaeth Gyfreithiol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy gynhyrchu daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Statws Partneriaeth Gyfreithiol	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
<b>Pob person 16 oed a throsodd</b>	<b>150,763</b>		<b>155,486</b>		<b>2,507,160</b>		<b>2,559,415</b>		<b>45,469,780</b>		<b>48,566,373</b>	
Sengl: Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil	44,478	29.5%	50,384	32.4%	840,347	33.5%	951,656	37.2%	15,730,275	34.6%	18,401,778	37.9%
Priod	74,636	49.5%	73,191	47.1%	1,167,315	46.6%	1,116,418	43.6%	21,196,684	46.6%	21,580,492	44.4%
Priod: Rhyw arall	Heb ei ofyn		72,771	46.8%	Heb ei ofyn		1,109,656	43.4%	Heb ei ofyn		21,446,221	44.2%
Priod: Yr un rhyw	Heb ei ofyn		420	0.3%	Heb ei ofyn		6,762	0.3%	Heb ei ofyn		134,271	0.3%
Mewn partneriaeth sifil gofrestredig: Rhyw arall	Heb ei ofyn		122	0.1%	Heb ei ofyn		1,730	0.1%	Heb ei ofyn		35,797	0.1%
Mewn partneriaeth sifil gofrestredig: Yr un rhyw	205	0.1%	216	0.1%	4,654	0.2%	3,311	0.13%	104,942	0.2%	66,812	0.1%
Wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod	Heb ei ofyn		3,133	2.0%	Heb ei ofyn		52,074	2.0%	Heb ei ofyn		1,078,052	2.2%
Wedi gwahanu, ond yn dal i fod mewn partneriaeth sifil gofrestredig	Heb ei ofyn		24	0.0%	Heb ei ofyn		394	0.0%	Heb ei ofyn		7,935	0.0%
Wedi Ysgaru	Heb ei ofyn		16,288	10.5%	Heb ei ofyn		252,159	9.9%	Heb ei ofyn		4,412,518	9.1%
Wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol	Heb ei ofyn		21	0.0%	Heb ei ofyn		548	0.0%	Heb ei ofyn		11,828	0.0%
Person gweddw neu wedi colli partner sifil cofrestredig drwy farwolaeth	13,450	8.9%	12,109	7.8%	197,965	7.9%	181,125	7.1%	3,169,667	7.0%	2,971,161	6.1%

### Dadansoddiad:

- Yn gymesur, mae mwy o boblogaeth Sir Gaerfyrddin (16+ oed) yn briod o gymharu â lefelau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r cyfran o rhai sy'n briod wedi gostwng ychydig dros y deng mlynedd diwethaf o 2.4%.
- Mae'r lefelau ar gyfer priodasau un rhyw a phartneriaethau sifil ar gyfer cyplau o'r un rhyw a chyplau o ryw cyferbyn yn gyson â chyfartaleddau cenedlaethol.
- Mae cyfraddau ysgariad ychydig yn uwch yn y sir o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae hyn hefyd yn wir am lefelau y rhai sy'n weddw neu wedi colli partner o bartneriaeth sifil o'r un rhyw drwy farwolaeth.

## Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Statws Partneriaeth Gyfreithiol

### *Diffiniad:*

Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu statws partneriaeth gyfreithiol.

Mae'r un fath â newidyn cyfrifiad 2011 "Statws priodasol" ond mae wedi'i ddiweddarau ar gyfer Cyfrifiad 2021 i adlewyrchu'r Ddeddf Partneriaeth Sifil ddiwygiedig a ddaeth i rym yn 2019. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.

Yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2021, nid yw "sengl" yn cyfeirio ond at rywun nad yw erioed wedi bod yn briod nac mewn partneriaeth sifil gofrestrdig.